**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/VG/0155/19

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

14 Chwefror 2019

Annwyl Mick

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu fy mod wedi gosod dau Femoranda Cydsyniad Offeryn Statudol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â:

- **Rheoliadau Cyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol (Buddion mewn Nwyddau neu Wasanaethau etc.) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019;**

- **Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol a Diwygiadau Amrywiol etc.) (Ymadael â'r UE) 2019**

yn unol â'r gofyniad o dan Reol Sefydlog 30A (RhS30A).

Rwy'n ysgrifennu hefyd i roi gwybod ichi nad wyf yn bwriadu cyflwyno cynnig i gynnal dadl ar yr OSau hyn yn yr achos hwn. Rwyf wedi gwneud y penderfyniad hwn ar y sail bod yr OSau wedi'u cyfyngu i wneud cywiriadau i'r diffygion yn y gyfraith a fydd yn codi oherwydd bod y DU yn ymadael â'r UE. Nid oes unrhyw wahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn yr achos hwn.

Mae RhS30A yn darparu y caiff unrhyw aelod gyflwyno cynnig i gynnal dadl ar yr OS hwn. O ystyried faint o ddeddfwriaeth y mae'r Cynulliad yn ei ystyried, ni fyddaf yn ceisio cynnal dadl o'r fath.

Yn gywir

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.